Gwasanaeth Carchardai a
Phrawf EF yng Nghymru

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
Gwasanaeth Carchardai a
Phrawf EF yng Nghymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Charlie Taylor,
Prif Arolygydd Carchardai EF
Trydydd Llawr, 10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU

09 Chwefror 2026

Annwyl Charlie,

**Adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ar Adolygiad Annibynnol o Gynnydd yn CEF y Parc rhwng 05 Ionawr a 07 Ionawr 2026**

Diolch am eich adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Gynnydd yn CEF y Parc, oedd yn mynd ar drywydd saith pryder â blaenoriaeth a phedwar pryder allweddol/pryder â blaenoriaeth Estyn a nodwyd yn eich adolygiad diweddaraf ym mis Ionawr 2025.

Mae'n galonogol gweld eich bod wedi nodi cynnydd da/rhesymol ar gyfer dau o'r pryderon â blaenoriaeth, yn ogystal â chynnydd rhesymol ar gyfer dau o bryderon allweddol Estyn, gan gydnabod yn benodol:

- Yr ymrwymiad a ddangoswyd gan arweinwyr a staff i sbarduno gwelliannau, gan gynnwys cyflwyno Tîm STEP (cydweithio'n well i rymuso carcharorion), sy'n cael ei arwain gan gymheiriaid.
- Cyd-ymdrechion y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a G4S i leihau'r cyflenwad o gyffuriau i, ac o fewn, y carchar, drwy gynnal mentrau fel y rhaglen ffenestri, y cynllun peilot canfod-dronau a drwy sicrhau bod y tîm diogelwch yn cynnal prosesau chwilio cryfach.
- Cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth wella'r ddarpariaeth iechyd meddwl, gan gynnwys integreiddio gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd yn well, a chynnal rhagor o sesiynau er mwyn cwtogi'r rhestrau aros am wasanaethau seiciatreg o 15 wythnos.
- Cryfhau'r gwaith partneriaeth rhwng G4S a'r darparwr addysg Novus Gower, gan arwain at welliannau i'r broses ddyrannu, a phresenoldeb gwell mewn sesiynau addysg, sgiliau a gwaith.
- Gwaith Novus Gower i wella perthnasoedd rhwng staff a dysgwyr, yn ogystal â buddsoddi mewn cynllun datblygu staff.

Gallaf gadarnhau ein bod wedi ystyried y canfyddiadau yn ofalus o ran y pum pryder â blaenoriaeth a dau bryder allweddol/pryder â blaenoriaeth Estyn lle nad yw'r cynnydd wedi bod yn ddigonol, ac y byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn fel sy'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- G4S i fwrw ymlaen â'i gynllun recriwtio presennol, sy'n dangos y dylai fod wedi'i staffio'n llawn erbyn diwedd Gwanwyn 2026.
- G4S i gynnal ymgynghoriad gyda'i staff ar batrwm shifftiau newydd i gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac i gefnogi'r gwaith o gadw staff.
- Defnyddio prosesau recriwtio a chadw staff gwell i sefydlogi pethau a darparu trefn fwy cyson, gan gefnogi ymdrechion i wella presenoldeb carcharorion mewn sesiynau addysg, sgiliau a gwaith.
- Cyflwyno STEP, menter dan arweiniad cymheiriaid, yn ehangach yn y carchar er mwyn lleihau achosion o drais a hunan-niweidio.
- Y darparwr iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, i dreialu clinigau ymweld ac archwilio gwahanol opsiynau brysbennu ar y safle er mwyn lleihau'r angen i hebrwng carcharorion.
- Dull gweithredu ar y cyd rhwng G4S a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i leihau nifer yr apwyntiadau deintyddol sy'n cael eu canslo drwy sicrhau bod gwasanaeth hebrwng priodol yn cael ei ddarparu a chadw rhestr aros wrth gefn pan fo carcharorion yn gwrthod mynychu.

Bydd y Cyfarwyddwr, gyda chymorth y Dirprwy Gyfarwyddwr Cymorth Strategol, Gweinyddu a Sicrwydd yng Nghymru, yn dal ati i ddatblygu'r cynllun gweithredu llawn gan fynd i'r afael â'r holl bryderon allweddol/pryderon â blaenoriaeth a nodwyd yn wreiddiol.

Rwyf i'n dal wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer Carchar y Parc, a gallaf eich sicrhau ein bod yn monitro'r cynnydd hwn yn fanwl drwy'r swyddogaeth sicrwydd gweithredol a gyda chefnogaeth y grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg (PAR).

Rwy'n cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd yn y carchar, ond mae'n galonogol bod cynnydd yn cael ei wneud a bod ein gwaith monitro yn y carchar yn cyd-fynd â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF Cymru

cc:
Michelle Jarman-Howe, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Gweithrediadau, HMPPS
Sian Hibbs, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymorth Strategol, Gweinyddu a Sicrwydd yng Nghymru